# Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Rhan 1 – Adran 6

## Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau

## Adrodd ar Adran 6 – Templed Adrodd ar gyfer Cynghorau Tref a Chynghorau Cymuned

***Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Rhan 1 - Adran 6***

***Adroddiad ar Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau***

***Adolygwyd 1.5.25***

**Enw y Cyngor Tref neu Gymuned:CYNGOR CYMUNED LLANBEDR**

**Cyflwyniad a'r Cyd-destun**

**Mae Cyngor Cymuned** Llanbedr yn darparu amrediad o wasanaethaau I'r gymuned leol. Sydd yn cael effaith ar fioamrywiaeth. Mae rhain yn cynnwys

- Cyfrifoldeb am nifer o fannau gwyrdd, gan gynnwys Cae Chwarae Plant, Cae Pel droed, y fynwent y Plwyf, Llwybrau Cyhoeddus, Cae Deiliog, a Gardd Goffa, Gof Golofn. Ceir QR codes ar y ffens gof golofn sydd yn enwi y rhai a laddwyd yn y Rhyfeloedd.
- Rydym yn hyrwyddo cynaliadwyedd a bioamrywiaeth drwy gyflawni amcanion cynaliadwyaeth a gweithredu arferion cynaliadwy lle bynnag y bo modd.
- Mae dalgylch y Cyngor rhwng mor a mynydd yn Ardudwy.
- Asgwrn cefn yr economi leol yw Amaethyddiaeth,bwyd a thwristiaeth. Mae hen safle CAMP a Mochras yn rhan o,r Gymuned.
- Mae tua 420 o etholwyr yn yr ardal.
- 9 Cynghorydd.
- 2 Gynghorydd Sirol
- Ardal o fewn Parc Cenedlaethol Eryri.
- Praesept am 24/25 oedd £21000
- Mae yma 86 o lwybrau sydd ar y ffin gyda Phlwyf Llanfair a Dyffryn Ardudwy.
- Mae hefyd llwybr arfordir yn mynd trwy'r ardal.
- Ceir hefyd Llwybr yr Ucheldir – o Harlech hyd Abermaw yn mynd drwy'r ardal. Ceir mapiau a QR codes I ddangos y rhwydwaith hyn.

**Adroddiad Gweithredu**

| Camau gweithredu i: | | Wedi eu monitro gan: |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| -cynnwys bioamrywiaeth o fewn llunio penderfyniadau a chaffael | Wrth ymateb I Geisiadau Cynllunio | Cyngor Cymuned, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |
| -codi ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth a'i bwysigrwydd | Gofalaeth 3 llecyn gan Coed Cadw<br>Coed Crafnant<br>Coed Llety Walter a Coed Garth Goch.<br>Gardd Goffa – plannu coeden er cof<br>LLecyn yn Cae Deiliog – ar gyfer bywyd gwyllt | Coed Cadw<br><br><br>Cyngor Cymuned |
| -diogelu y prif rywogaethau a'r cynefinoedd | Gofalu bod ceisiadau cynllunio yn cydymffurfio gyda rheolau cynllunio. | Cyngor Cymuned, Cyngor Gwynedd, Parc Cenedlaethol |
| -adfer a chreu cynefinoedd a rhwydweithiau ecolegol cydnerth | Ochrau ffyrdd yn cael eu torri gan Gyngor Gwynedd x2 y flwyddyn – er diogelwch. Ceisio diogelu gloynod byw, gadael glaswellt a blodau gwyllt hadu yn naturiol. | |
| -mynd i'r afael ag elfennau negyddol: lleihau llygredd e.e. defnyddio atebion yn seiliedig ar natur, mynd i'r afael â rhywogaethau goresgynnol | Lleihau llygredd, a sbwriel. Dyddiau I wirfoddolwyr wneud Gwaith tacluso.<br>Gofal am forder yn y Gof Golofn.<br>Angen ail edrych ar y fynwent diwedd y flwyddyn. Gellir tynhau tipyn yma hefyd. (Adolygwyd 17.5.25)<br><br>Rhywogaethau goresgynnol – megis Japannese Knotweed ffordd Mochras, a gyferbyn y Llwyn Onn | Cyngor Cymuned a tim Tacluso<br>Peidio chwynu nes fydd y blodau wedi darfod.<br><br>Cysylltu gyda Cyngor Gwynedd I ddelio gyda chwyn fel hyn, ac I ddatrys y broblem |

| | | |
|---|---|---|
| -defnyddio gwella a rhannu tystiolaeth | Trwy cofnodion a gwefan | |
| -cefnogi capasiti ac/neu sefydliadau eraill | Cyngor Cymuned a Pwyllgor Neuadd ar waith yn Cae Deiliog | |

**Arolwg o ddyletswydd Adran 6**

- Beth sydd wedi gweithio'n dda? Beth fu'r rhwystrau? Beth fyddwch yn ei newid?
- Gardd Cae Deiliog yn elfen wych o gydweithio ac yn ofod ardderchog. Wedi plannu aml I goeden ffrwytha yma ar gyfer y Gymuned.
- Hefyd gardd neu lecyn gwyllt – blodau gwyllt.
- Llecyn ar gyfer adar a rhywogaethau I fagu yn y 2 wrych sydd wedi eu plannu yn ddiweddar. Monitoro y tyfiant. Fydd rhaid plygu Gwrych yn ysod y 3 blynedd nesaf.
- Rhwystrau – bod pawb eisiau y safleoedd wedi eu torri yn gyson. Ail edrych ar hyn!

- Sut a phryd fydd y ddyletswydd Adran 6 yn cael ei monitro a'r cynllun Adran 6 wedi'i adolygu?

Wedi monitoro 1.5.25 a'I adolygu
Angen cael cyfarfod yn y fynwent I weld sut mae cefnogi bioamrywiaeth yma.
Cyfarfod 17.5.25 – I'w ystyried diwedd y flwyddyn gan bod contract Gwaith wedi ei sefydlu am y tymor.